**GORCHYMYN**

DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984

# GORCHYMYN CYNGOR SIR CEREDIGION (TERFYNAU CYFLYMDER 20 MYA, 30 MYA, 40 MYA A 50 MYA A FFYRDD DIFFYGIEDIG) (CYDGRYNHOI) 2014 (GOGERDDAN A4159 A C1010) (GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 27) 2025

Mae Cyngor Sir Ceredigion wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 82 a 84 a rhan IV Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984") a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol â Rhan III Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

1. Ceir enwi'r Gorchymyn hwn yn " Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20 mya,.30 mya, 40 mya a 50 mya a Ffyrdd a Ddatgyfyngwyd) (Cydgrynhoi) 2014 (Gogerddan A4159 a C1010) (Gorchymyn Diwygio Rhif 27) 2025" a daw i rym ar 14/05/2025.

2. Effaith y Gorchymyn hwn fydd diwygio Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20mya, 30mya, 40mya a 50mya a Ffyrdd Heb Gyfyngiad) (Cydgrynhoi) 2014 fel y'i diwygiwyd drwy ddirymu'r cynlluniau a restrir yng Ngholofn A yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn a mewnosod y cynlluniau a restrir yng Ngholofn B yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

3. Os bydd llys neu Lywodraeth Cymru yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfodadwy, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

**RHODDIR** dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ceredigion y ...6... diwrnod hwn o fis .Mai. Dwy Fil a Dau Ddeg Pump.

9625

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN )
CYNGOR SIR CEREDIGION )
Ar hyn ym mhresenoldeb )

------------------------------------------------

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

## ATODLEN

| Colofn A | | | Colofn B | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau i'w ddirymu** | | | **Cynlluniau i'w fewnosod** | | |
| Cyfeirnod CE | Is-fap | Dyddiad | Cyfeirnod CE | Is-fap | Dyddiad |
| CE36 | D15 | 01/04/2014 | CE36 | D15 | 25/09/2024 |
| CE36 | E15 | 01/04/2014 | CE36 | E15 | 25/09/2024 |
| CE36 | F14 | 26/01/2024 | CE36 | F14 | 25/09/2024 |
| CE36 | F15 | 01/04/2014 | CE36 | F15 | 25/09/2024 |